

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill i drefnu gweithdai preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn cydgynhyrchu Datganiad Ansawdd Blynyddol i Bobl Ifanc. Yn ogystal â datblygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, mae'r bobl ifanc oedd yn bresennol hefyd wedi derbyn hyfforddiant, ac wedi cyflwyno a gwneud argymhellion ynghylch cynnwys plant a phobl ifanc yng ngwaith Tîm Gweithredol a Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynhyrchwyd Datganiadau Ansawdd Blynyddol i Bobl Ifanc am y tair blynedd ddiwethaf. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn talu'r holl gostau teithio, llety a gweithgareddau adeiladu tîm gyda'r nos.

Yn ogystal, bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i drefnu'r Uwchgynhadledd Iechyd Cyhoeddus gyntaf i leuenctid, a gynhaliwyd yn Ne Cymru o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltiad pobl ifanc â'r Tîm Gweithredol. Bu'r digwyddiad cyntaf yn llwyddiannus iawn, gyda mwy na 90 o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddo. Darparwyd nifer o weithdai yn yr Uwchgynhadledd gyntaf, gan gynnwys gweithdy edrych i'r dyfodol (sut bydd eich iechyd pan fyddwch chi'n 70), Iechyd Meddwl a Phobl Ifanc, dewisiadau bywyd (ysmygu a defnyddio alcohol) ac amgylchiadau bywyd (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, tloidi).

Ymrwymodd Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cadeirydd i gynnal ac ehangu'r Uwchgynadledau Iechyd Cyhoeddus i leuenctid yn y dyfodol. Cynhaliwyd dwy Uwchgynhadledd bellach yn 2018 ac roedd mwy na 200 o bobl ifanc yn bresennol ynddyn nhw.

Yn dilyn adborth o'r Uwchgynadledau Iechyd Cyhoeddus i leuenctid, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu a chyflwyno rhaglen Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda phobl ifanc o ddeg awdurdod lleol ac yn 2019-2020 bydd yn ceisio ymgysylltu â'r awdurdodau lleol sy'n weddill a datblygu Rhaglen Llysgenhadon Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i hachredu gan Agored.

Yn rhan o raglen Llysgenhadon Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r sefydliad yn datblygu tair interniaeth bedair wythnos gyda thâl ar gyfer y llysgenhadon ifanc. Bydd lleoedd ar gael yn dilyn proses gyfswyddogol gyda chymorth a mentora'n cael eu cynnig er mwyn datblygu'r bobl ifanc.

Yn rhan o'r paratodau ar gyfer rhaglen Llysgenhadon Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae nifer o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y broses ddethol ar gyfer paneli cyfswyddogol anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y gwaith hwn yn ehangu wrth i ni gyflwyno a datblygu'r rhaglen Llysgenhadon. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwmo i roi rôl weithredol i'r llysgenhadon ifanc yng nghyfarfodydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn gweithio gyda phobl ifanc i sicrhau bod y cyfarfodydd sy'n cael eu datblygu yn ymgysylltu â phawb. Bydd y datblygiad hwn yn

digwydd yn 2019-2020 ac yn cyd-fynd â rhaglen Llysgenhadon Ifanc Iechyd  
Cyhoeddus Cymru.